



Eich cyf/Your ref P-05-1143
Ein cyf/Our ref KW/01042/21

Janet Finch-Saunders AS
Cadeirydd
Senedd Cymru Y Pwyllgor Deisebau
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

18 Chwefror 2021

Annwyl Janet,

Diolch am eich llythyr ar ran y Pwyllgor Deisebau, yn gofyn am sylwadau ar y materion a godwyd yn Neiseb P-05-1143 yn galw am ailagor ysgolion yn llawn ar ôl gwyliau hanner tymor mis Chwefror, cyn ichi ei hystyried yn ffurfiol.

Ers cyflwyno'r Ddeiseb, mae pethau wedi symud ymlaen yn gyflym. Er bod y sefyllfa yng Nghymru a ledled y DU yn parhau'n ddifrifol iawn a bod cyfyngiadau Lefel 4 mewn grym yng Nghymru ar hyn o bryd, mae Cam 1 y rhaglen frechu yn mynd rhagddo'n dda. Ar 05 Chwefror, [ysgrifennais](#) at bob pennaeth i amlinellu'r cynllun i'n dysgwyr ieuengaf ddychwelyd i'w hysgolion yn ofalus. Dylai ysgolion baratoi nawr ar gyfer gweld dysgwyr oedran ysgol gynradd yn dychwelyd yn raddol a chynyddol ac mewn modd hyblyg ar ôl 22 Chwefror, os bydd cyfraddau'r coronafeirws yn parhau i ostwng. Bydd manylion pellach, a chynlluniau ar gyfer gweld dysgwyr oedran ysgol uwchradd yn dychwelyd i'w hysgolion, yn dilyn.

Fodd bynnag, rydym i gyd yn gwybod bod y pandemig yn sefyllfa sy'n newid yn gyflym, sy'n aml yn ei gwneud yn anodd cynllunio ar ei gyfer, ac, ar adegau, mae wedi golygu bod angen newid ein cyngor ar fyr rybudd. Y rheswm am hyn yw ein bod yn parhau i adolygu'r sefyllfa'n gyson, ac mae penderfyniadau'n seiliedig ar y cyngor meddygol a gwyddonol diweddaraf. Dyna hefyd pam yr ydym yn cynllunio dull gofalus a hyblyg o ailagor ysgolion ar gyfer dysgu wyneb yn wyneb.

Fel Llywodraeth rydym yn deall yr heriau sy'n wynebu pob dysgwr, athro ac arweinydd o ganlyniad i'r pandemig, ac yn cydnabod bod hon wedi bod yn flwyddyn anodd i bawb. Rydw i'n deall yn llwyr effaith barhaol cau ysgolion ar addysg ac iechyd a lles emosiynol a meddyliol dysgwyr yng Nghymru, ac yn sylweddoli cymaint o siom oedd y tarfu pellach a fu

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

ar ddysgu wyneb yn wyneb dros yr wythnosau diwethaf. Bu'n rhaid i bob un ohonom addasu yn y cyfnod heriol hwn ac ystyried gwahanol ffyrdd o ddysgu. Gwyddom nad yw dysgu cyfunol yn gallu cymryd lle addysgu wyneb yn wyneb yn llawn, ac rwy'n canmol yr ymdrechion a wnaed gan staff addysg a phlant a'u gwydnwch a'u penderfyniad i barhau i addysgu a dysgu. Rydw i'n dal i gynnal trafodaethau gydag ysgolion, awdurdodau lleol, undebau a rhanddeiliaid eraill ynglŷn â mesurau y gellir eu cymryd i wneud iawn am addysg a gollwyd yn ystod y pandemig, ac ynghylch ffyrdd mwy diogel i ddychwelyd i ddysgu mewn ysgolion.

Yn y cyfamser, rydw i wedi rhoi amrywiaeth o fesurau ar waith i gefnogi dysgu o bell, gan gynnwys dysgu proffesiynol helaeth, buddsoddiad sylweddol mewn dyfeisiau a'r Rhaglen Cyflymu Dysgu well, gwerth £29 miliwn i [recrwtio, adfer a chodi safonau](#) yn ysgolion Cymru. Gan adeiladu ar ganllawiau i gefnogi dysgu cyfunol, cyhoeddwyd canllawiau pellach i helpu ysgolion i gefnogi dysgwyr yn effeithiol yn ystod [blynyddoedd eu harholiadau](#), i gefnogi [dysgwyr agored i niwed ac sydd dan anfatais](#). Mae canllawiau a chyllid ychwanegol ar gael i ddysgwyr ag [ADY](#), a chyhoeddwyd newidiadau i [gymwysterau](#) ar gyfer 2021. Mae'r Grŵp Cyngori ar Ddylunio a Chyflawni, swyddogion, a Chymwysterau Cymru wedi gweithio'n agos â'i gilydd ar y dull gweithredu a'r canllawiau ar gyfer proses asesu cymwysterau 2021. Rydw i'n amgáu dolen at [wefan Cymwysterau Cymru](#) sy'n galluogi ymarferwyr, dysgwyr a rhieni i gael yr wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw newidiadau i'r broses asesu a allai ddigwydd wrth symud ymlaen, o ganlyniad i'r amgylchiadau eithriadol hyn.

Mae lles emosiynol a meddyliol dysgwyr hefyd yn flaenoriaeth allweddol i Lywodraeth Cymru. Rwy'n ymwybodol y gall amser i ffwrdd oddi wrth ffrindiau, teulu a'r ystafell ddosbarth gael effaith barhaol ar les dysgwyr. Roeddwn yn gyfrifol am gynnull Grŵp Gorchwyl a Gorffen Cyd-Weinidogol ar Ddull Ysgol Gyfan o Ymdrin â Llesiant Emosiynol a Meddyliol i roi cyngor ar y gwaith sydd ei angen i gefnogi lles dysgwyr, ac ar y cyd mae'r Gweinidog dros Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg a minnau wedi sicrhau bod cyllid ychwanegol o [£9.4 miliwn](#) ar gael i gefnogi lles ac iechyd meddwl disgyblion a staff ysgol. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cefnogi C.A.L.L. (y Llinell Cyngor a Gwranddo Cymunedol), llinell gymorth ar gyfer Cymru sydd ar agor 24 awr bob dydd. Gall unrhyw un sy'n pryderu am eu lles eu hunain, neu les aelod o'r teulu neu ffrind, gysylltu â C.A.L.L. gan ddefnyddio'r rhif ffôn am ddim 0800 132 737 neu drwy decstio HELP i 81066 am gyngor a chymorth cyfrinachol.


O ran y rhaglen frechu, rydw i'n deall pryderon athrawon ac eraill a allai gael eu heintio â'r feirws yn y gweithle. Fel y gwyddoch, rydym yn gweithio yn unol â'r amserlen flaenoriaeth a bennwyd gan y Cydbwyllgor ar Frechu ac Imiwneiddio (JCVI). Penderfynodd y JCVI mai atal marwolaethau sy'n gysylltiedig â Covid a diogelu staff a systemau iechyd a gofal cymdeithasol ddylai fod y blaenoriaethau cyntaf wrth fynd ati i gyflwyno'r rhaglen frechu. Mae hyn yn golygu ein bod yn brechu pobl yn nhrefn risg glinigol, a bydd staff ysgol a gweithwyr allweddol eraill yn cael eu himiwneiddio yn dibynnu ar eu hoedran a'u risg. Yng Nghymru dechreuwyd cyflwyno brechlyn COVID 19 ar 8 Rhagfyr, ac mae aelodau o'r gweithlu addysg sy'n agored iawn i niwed yn glinigol ac sydd wedi bod yn gwarchod eu hunain, a'r rhai dros 50 oed wedi'u cynnwys yng Ngham 1. Mae staff ysgol sy'n darparu gofal personol i blant ag anghenion meddygol cymhleth hefyd wedi'u cynnwys yn y rhestr flaenoriaethau ynghyd â gweithwyr gofal cymdeithasol. Rydym yn aros am y wybodaeth ynglŷn ag amserlen flaenoriaeth Cam 2.

Yn dilyn trafodaethau diweddar ynglŷn â'r angen am fesurau lliniaru ychwanegol mewn ysgolion, fel cyfarpar diogelu personol, byddwn, fodd bynnag, yn cyflwyno nifer o fesurau i roi lefel ychwanegol o sicrwydd i staff ysgolion ar gyfer dychwelyd yn ddiogel i addysgu wyneb yn wyneb. Mae hyn yn cynnwys dechrau rhoi profion [ddwywaith yr wythnos](#) i aelodau

staff, a rhoi rhagor o gymorth ariannol ar gyfer gorchuddion wyneb newydd o ansawdd uchel. Byddwn hefyd yn darparu £5 miliwn ychwanegol i gefnogi ysgolion, colegau ac awdurdodau lleol i fuddsoddi ymhellach mewn eitemau y mae eu hangen arnynt i gadw eu hadeiladau'n ddiogel.

Diolch eto am gysylltu â ni, ac am roi cyfle i mi rannu'r wybodaeth hon. Rwy'n sylweddoli bod rhieni, disgyblion a'r gymuned ehangach yn dymuno ein gweld yn dychwelyd yn llawn at addysg mewn ysgolion cyn gynted ag y bo modd. Rwy'n eich sicrhau mai dyma yw ein huchelgais o hyd, ond rhaid inni gael ein harwain gan gyngor meddygol a gwyddonol a'r dystiolaeth sydd ar gael inni. Cofiwch mai diogelwch a lles myfyrwyr, staff ysgolion a'r gymuned ehangach, ac addysg barhaus dysgwyr, yw blaenoriaethau Llywodraeth Cymru yn ystod y pandemig hwn o hyd.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Kirsty Williams', written in a cursive style.

Kirsty Williams AS/MS
Y Gweinidog Addysg
Minister for Education